Cyllid y Wlad

# Hunan Asesiad — Cais i leihau taliadau ar gyfrif

***Os yw'r blwch hwn yn wag, rhowch eich Cyfeirnod Treth, Cyfeirnod y Cyflogwr neu Rif Yswiriant Gwladol. Ceir yr wybodaeth hon yng nghongl dde uchaf eich Datganiad o Gyfrif.***

Cyfeirnod Treth
Cyfeirnod y Cyflogwr
Rhif Yswiriant Gwladol

Enw a chyfeiriad Swyddfa Cyllid y Wlad
*Gweler pen uchaf eich Datganiad o Gyfrif*

## *Darllenwch y nodiadau dros y ddalen cyn cwblhau'r ffurflen hon*

Blwyddyn dreth y mae'r cais hwn yn berthnasol iddi —

*Er enghraifft, rhowch y flwyddyn dreth yn diweddu 5 Ebrill 2001 fel* 2000 — 01

**Enw a chyfeiriad y trethdalwr** *os na nodwyd uchod*
*Defnyddiwch BRIF LYTHRENNAU*

Enw Llawn

Cyfeiriad

Cod Post

**Credaf**
y bydd cyfanswm Treth Incwm a CYG Dosbarth 4***** sy'n daladwy am flwyddyn dreth y cais (llai unrhyw dreth a ddiddynnir wrth y ffynhonnell) **yn llai na'r** taliadau ar gyfrif ar sail y flwyddyn flaenorol ✓ ☐

**neu**

Ni fydd unrhyw Dreth Incwm neu CYG Dosbarth 4***** yn ddyledus am flwyddyn dreth y cais ☐

*** *Anwybyddwch Dreth Enillion Cyfalaf ac ad-daliadau Benthyciadau Myfyrwyr***

**Fy rheswm (rhesymau)** ✓

Mae'r elw busnes wedi gostwng ... ... ... ... ... ☐
Mae incwm arall wedi gostwng... ... ... ... ... ☐
Mae'r lwfansau a rhyddhad treth wedi codi ☐
Mae'r dreth a ddidynnir wrth y ffynhonnell ☐
yn fwy nag yr oedd yn y flwyddyn dreth flaenorol

**Rheswm arall** ***rhowch fanylion***

**Dymunaf leihau pob taliad ar gyfrif am flwyddyn dreth y cais i** **£**

*Dylai pob taliad ar gyfrif sydd wedi'i leihau fod yn **hanner** y Dreth Incwm net a CYG Dosbarth 4 yr ydych yn disgwyl y bydd yn rhaid i chi eu talu am y flwyddyn dreth.*

**Deallaf**

- **os bydd y taliadau ar gyfrif sy'n ddyledus yn y pen draw yn fwy na'r symiau a dalwyd, codir llog ar y gwahaniaeth**
- **y gallai unrhyw wybodaeth ffug a roddir mewn cysylltiad â'r cais hwn arwain at gosb ariannol.**

Llofnod

Dyddiad / /

Os llofnodwyd y ffurflen gan asiant nodwch y canlynol:

Enw'r Asiant

Cyfeirnod yr Asiant

Rhif ffôn yr Asiant

*Ar ôl i chi ei chwblhau a'i llofnodi anfonwch y ffurflen hon at eich Swyddfa Cyllid y Wlad.*

## Anwybyddwch y ffurflen hon

- ***os nad oes rhaid i chi wneud taliadau ar gyfrif, neu***
- ***os nad ydych yn dymuno lleihau eich taliadau ar gyfrif, neu***
- ***os ydych eisoes wedi gwneud cais nad ydych yn dymuno ei adolygu.***

## Dyddiad cau i wneud cais

Gallwch wneud cais i leihau eich taliadau ar gyfrif ar unrhyw adeg hyd at **31 Ionawr ar ôl diwedd y flwyddyn dreth** o dan sylw.

*Er enghraifft*
*Mae taliadau ar gyfrif am y flwyddyn dreth* ***2000-01*** *yn ddyledus ar 31 Ionawr 2001 and 31 Gorffennaf 2001. Gallwch wneud cais i leihau y rhain ar unrhyw adeg hyd at* ***31 Ionawr 2002****.*

Gallwch wneud cais os credwch y bydd eich Treth Incwm net a CYG Dosbarth 4 sy'n daladwy am y flwyddyn dreth yn llai nag yr oeddent am y flwyddyn dreth flaenorol. Gallai hyn ddigwydd oherwydd

- disgwyliwch i'ch incwm i fod yn is, neu
- y bydd eich lwfansau neu eich rhyddhad yn uwch ,neu
- caiff fwy o'ch incwm ei drethu wrth y ffynhonnell, er enghraifft
  - o dan TWE, neu
  - drwy ddidyniadau is-gontactwyr, neu
  - oherwydd y bydd mwy o'ch incwm yn dod o gynilion, megis llog wedi'i drethu neu ddifidendau cwmni.

## Pa ffigurau ddylwn eu defnyddio?

Pan ychwanegwch eich dau daliad ar gyfrif at ei gilydd dylent roi'r **lleiaf** o

- eich amcangyfrif o'r cyfanswm Treth Incwm a CYG Dosbarth 4 sy'n ddyledus am flwyddyn dreth y cais *(llai unrhyw dreth a ddidynnir wrth y ffynhonnell)*
  a'r
- cyfanswm gwirioneddol o Dreth Incwm a CYG Dosbarth 4 sy'n ddyledus am y flwyddyn dreth flaenorol *(llai unrhyw dreth a ddiddynir wrth y ffynhonell).*

## Sut ddylech wneud eich cais

- Ticiwch y blwch/blychau priodol dros y ddalen.
- Gwnewch amcangyfrir rhesymol, ar sail yr wybodaeth sydd gennych nawr, o'r Dreth Incwm net a CYG Dosbarth 4 yr ydych yn disgwyl eu talu am flwyddyn dreth y cais. Dylech ystyried eich holl ffynonellau incwm am y flwyddyn dreth.
- Nodwch **hanner** yr amcangyfrif hwn yn y blwch dros y ddalen ar gyfer taliad ar gyfrif wedi'i leihau. Dyma'r swm ar gyfer pob un o'r ddau daliad ar gyfrif.

  **Wrth gyfrifo'r symiau dylech anwybyddu**
  - **Treth Enillion Cyfalaf, ac**
  - **Ad-daliadau Benthyciadau Myfyrwyr sy'n daladwy.**

- Dylech ddarllen, llofnodi a dyddio'r datganiad.

## Os penderfynwch, cyn y dyddiad cau, eich bod wedi lleihau eich taliadau ar gyfrif gan swm annigonol

Gwnewch gais wedi'i adolygu ar un o'r ffurflenni hyn neu drwy ysgrifennu at eich swyddfa Cyllid y Wlad.

Gwnewch yn siŵr fod eich symiau ar gyfer 31 Ionawr a 31 Gorffennaf yn ychwanegu at ei gilydd i roi eich amcangyfrif newydd o gyfanswm y Dreth Incwm a'r CYG Dosbarth 4 sy'n ddyledus am flwyddyn y cais *(llai unrhyw dreth a ddidynnir wrth y ffynhonell).*

Os byddwch yn talu gormod, byddaf yn eich credydu â llog.

## Os penderfynwch, cyn y dyddiad cau, eich bod wedi lleihau eich taliadau ar gyfrif gan swm sy'n ormodol

Gwnewch gais wedi'i adolygu ar un o'r ffurflenni hyn neu drwy ysgrifennu at eich swyddfa Cyllid y Wlad.

Talwch y symiau ychwanegol yn unol â'ch amcangyfrif wedi'i adolygu.

Os na fyddwch yn talu digon, byddaf yn codi llog arnoch.